Ceidwaid Cymunedol

Fel Eco-Ysgol gofalu am eich amgylchedd, gobeithio, wedi ei sefydlu yn eich ysgol.

Mae sawl ardal o'r gymuned leol sy'n cael llai o ofal nag eraill a gyda chyllidebau awdurdodau lleol yn lleihau, efallai eu bod wedi cael eu hesgeuluso. Byddai'n wych pe byddai eich cymuned leol yn edrych yn lân a thaclus ac yn gwneud i bobl a bywyd gwyllt eisiau dod i'r ardal?

Eich her yw: 'mabwysiadu' ardal o'ch cymuned. Gallai fod yn llwybr i'r ysgol, ardal o'r parc lleol, maes parcio neu unrhyw le y credwch sydd angen ychydig o ofal.

Gallech:

- Sicrhau bod yn ardal yn rhydd rhag sbwriel
- Cyflwyno neu ofalu am fasgedi crog neu botiau plannu
- Arolygu'r coedwrych gan ddefnyddio Ap y Goedwig Hir a chymryd rhan yn plannu coedwrych cynhenid mewn unrhyw fylchau
- Sicrhau bod digon o finiau ar gyfer yr holl fathau o sbwriel yn yr ardal
- Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned i wella'r cyfleusterau os oes angen
- Creu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a chynnal arolygon i weld beth sy'n byw yn lleol
- Darparu bwyd a chynefinoedd ar gyfer Peillwyr neu gael statws 'Cyfeillgar i Wenyn'

Gall fod grantiau ar gael i gynorthwyo'r hyn y byddwch yn dewis ei wneud os yw'n cynnwys arian. Beth bynnag y byddwch yn penderfynu ei wneud, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cyfathrebu gyda'ch Cyngor Cymuned ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn yr ydych yn ei wneud i helpu i ledaenu'r neges eich bod yn gofalu am eich cymuned. Mae gan lawer o Gynghorau Cymuned gronfeydd bach y gellid eu defnyddio i helpu eich gweithgareddau. Gallech hyd yn oed ysbrydoli pobl neu grwpiau lleol eraill i wneud yr un peth!

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n cymryd rhan mewn her drwy e-bostio eco-schools@keepwalestidy.cymru neu drydar @EcoSchoolsWales